# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 04-06 (p.7)

### Dyddiad: 10 Mai 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Strategaeth Bolisi Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007

#### Cefndir

Mabwysiadodd y Comisiwn ei Strategaeth Bolisi Flynyddol ar gyfer 2007, o’r enw "Boosting Trust through Action" ar 14 Mawrth. Cyflwynwyd y Strategaeth i gyfarfod bach llawn Senedd Ewrop ar 22 Mawrth gan Lywydd y Comisiwn José Manuel Barroso, a osododd nodau strategol y Comisiwn ar gyfer 2007, hanner ffordd drwy’i fandad yn Llywydd y Comisiwn.

Defnyddir y Strategaeth Bolisi Flynyddol i ofyn am fewnbwn gan Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion ar flaenoriaethau’r flwyddyn ganlynol, a hon hefyd yw sail rhaglen waith flynyddol y Comisiwn a fabwysiedir fel rheol yn yr hydref. Bydd Pwyllgorau’r Cynulliad yn defnyddio hon i glustnodi’u blaenoriaethau polisi am y flwyddyn wedyn.

Yn 2007 bydd llu o raglenni cyllido aml-flwydd yn dod i rym, a’r rhain yn dibynnu ar setliad terfynol y Financial Perspectives. Nid yw, fel arall, yn rhaglen uchelgeisiol; mae "tyfiant a swyddi" yn aros yn brif darged.

Hefyd, bydd 2007 yn gweld dathlu hanner canmlwyddiant Cytundeb Rhufain, y cytundeb sydd yn sail i’r Gymuned Ewropeaidd. Bydd gan yr UE ddau aelod newydd hefyd os bydd Bwlgaria a Romania’n barod i ymuno.

Cyflwynwyd y strategaeth i gyfarfod bach llawn Senedd Ewrop ar 22 Mawrth. Mewn dadl gymharol fer, cafodd ei beirniadu gan Aelodau Senedd Ewrop am fod ganddi enw rhodresgar sydd bron yn ddiystyr, yn enwedig yn wyneb y ffaith fod llawer o’r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn debyg i’r rhai a glustnodwyd yn Strategaeth 2006. Nododd Malcolm Harbour (EPP-ED, DU) y byddai’r Comisiwn, yn 2007, yn cyrraedd ‘rhyw gyflymder gweddol’ wrth sylweddoli’i amcanion, a dywedodd mai ‘prin ar gyflymder cerdded’ y symudai’r Comisiwn ar hyn o bryd. Beirniadwyd yr Is-lywydd Margot Wallstrom gan rai o Aelodau Senedd Ewrop am roi gwedd rhy gadarnhaol wrth gyflwyno’r Strategaeth.

#### Gweithredu

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r crynodeb o’r Strategaeth Bolisi Flynyddol yn Atodiad A, cyn trafod

Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn ar gyfer 2007 sydd i'w chyhoeddi yn yr hydref.

## Strategaeth Bolisi Flynyddol 2007

Dyma rai o brif uchafbwyntiau'r Strategaeth:

### Strategaeth Lisbon

Gweithredu er mwyn hybu'r Aelod Wladwriaethau a'r sector preifat i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi, yn enwedig drwy gefnogi marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau arloesol, i geisio marchnad sengl ddeniadol ar gyfer ymchwilwyr, ac i wella ymchwil yn y prifysgolion.

Ymysg y rhaglenni sydd yn dechrau yn ystod 2007 ceir Seithfed Raglen Fframwaith Ymchwil; Galileo; Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd; Marco Polo; Addysg Gydol Oes; Tollau a Chyllid. Hefyd, lansir Rhaglen Ewropeaidd y Gofod.

### Cyflogaeth

Cyfathrebiad ar "flexicurity": yn anelu at gydbwysedd rhwng hyblygrwydd a sicrwydd swyddi.

### Llywodraethu'r Undeb Economaidd ac Ariannol (EMU)

Mwy o gyd-drafod â'r Aelod Wladwriaethau sydd yn debygol o fod yn gymwys i'w cynnwys yn rhan o ardal yr ewro; hefyd, monitro gwell ar raglenni sefydlogi a chydgyfeirio a datblygu ymhellach ar weithredu ardal yr ewro o dan y Cytundeb Sefydlogrwydd a Thyfiant diwygiedig.

### Undod Cymdeithasol

Dilyniant i'r Papur Gwyrdd ar esblygiad cyfraith llafur; Y Strategaeth Ewropeaidd ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i hybu cynhwysiant cymdeithasol a byw'n annibynnol mewn cymdeithas sy'n heneiddio.

### Ynni a Thrafnidiaeth

Sefydlu arsyllfa Ewropeaidd newydd ar gyfer marchnadoedd ynni; mesurau i gefnogi cwblhau'r farchnad fewnol ar gyfer trydan a nwy; cynllun gweithredu ar logisteg ryngfoddol trafnidiaeth â'r nod o leddfu tagfeydd trafnidiaeth a lleihau costau cludiant; a hybu trafnidiaeth dyfrffyrdd mewndirol gan gynnwys manteisio ar ei photensial masnachol.

### Y Farchnad Sengl

Dilyniant i'r Papur Gwyrdd ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat a chaffael cyhoeddus a chonsesiynau'r Gymuned Ewropeaidd; dal i weithredu i greu Ardal Taliad Sengl yn Ewrop erbyn 2010; rheolau newydd ar gyfer caffael ym maes amddiffyn i gynyddu'r gystadleuaeth; hybu tyfiant yn y marchnadoedd di-wifr.

## Ymfudo Cyfreithlon

Hyrwyddo derbyn gweithwyr hyfedr.

## Cyfiawnder a Materion Cartref

Papur Gwyrdd a Chynllun Polisi ar ail gam y Gyfundrefn Ewropeaidd Gyffredin ar Loches; Cyfathrebiad ar bolisi cyffuriau ac ar ffyrdd i ganfod, monitro ac ymateb i dueddiadau sy'n datblygu ym maes defnyddio cyffuriau a marchnadoedd cyffuriau.

## Defnyddio a Rheoli Adnoddau mewn modd cynaliadwy a Diogelu'r Amgylchedd

Arloesi o'r newydd ym maes Caffael Cyhoeddus Gwyrdd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar gynhyrchu a threulio cynaliadwy; Sefydlu Asiantaeth Cemegolion newydd yr UE yn Helsinki a gweithredu deddfwriaeth ar y rheoliadau newydd ym maes cemegolion (REACH); Cwblhau ymgynghori'r Papur Gwyrdd ar bolisi arforol yn y dyfodol a chyflwyno Cynllun Gweithredu.

## Iechyd a Diogelwch

Datblygu fframwaith i'r Gymuned ar gyfer gwasanaethau iechyd diogel, effeithlon ac o ansawdd dda drwy orfodi cydweithio rhwng Aelod Wladwriaethau gan ofalu bod eglurdeb a sicrwydd wrth gymhwyso cyfraith y Gymuned i'r gwasanaethau iechyd a gofal iechyd; cryfhau a symleiddio strwythurau Ewropeaidd ar gyfer ymateb i fygythiadau i iechyd yn benodol drwy greu, ar lefel uchel, rwydwaith Ewropeaidd o swyddogion ffliw.

## Y Byd Ehangach

Cwblhau'r trafodaethau Doha a dechrau rhoi'r hyn a gytunwyd mewn grym; Gwella cyfraniad polisïau mewnol yr UE i weithredu, ar lefel yr UE, agenda Targedau Datblygu'r Mileniwm (MDGs) ar gydlyniad Polisïau ynghylch Datblygu; Negodi Cytundeb Fframwaith newydd rhwng yr UE a Tsieina.

**Sandy Mewies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**